

## CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Cyngor

**Dyddiad y cyfarfod:** 14 Rhagfyr 2023

**Teitl:** Newidiadau i'r Cyfansoddiad

**Pwrpas yr adroddiad:** Ystyried y newidiadau i'r Cyfansoddiad  
Er Penderfyniad

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd Matthew Vaux, yr Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

### Cefndir:

Cyhoeddir y Cyfansoddiad ar wefan y Cyngor, ac mae'n ddogfen fyw. Awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud mân newidiadau i'r Cyfansoddiad, a'i ddiweddarau yn ôl yr angen. Mae fersiwn gyfredol Cyfansoddiad y Cyngor (19/7/23) wedi'i chyhoeddi ar y wefan: <https://www.ceredigion.gov.uk/media/9960/cyfansoddiad-cym.pdf>

Yn fwyaf diweddar, cymeradwyodd y Cyngor newidiadau i'r Cyfansoddiad ar 13 Gorffennaf 2023. (cofnodion y cyfarfod– [Cofnodion y Cyngor 13.7.23](#) )

Cynhaliwyd cyfarfodydd o Weithgor Trawsbleidiol y Cyfansoddiad ar 26 Medi 2023 a 14 Tachwedd 2023 ac yn ystod y cyfarfodydd hynny, cafodd y newidiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn eu hystyried a'u cymeradwyo.

### Y sefyllfa bresennol

#### **Newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad**

Mae'r holl newidiadau wedi'u crynhoi isod ac maent i'w gweld yn yr atodiadau ar ffurf newidiadau wedi'u tracio.

#### **1) Rhan 2 – Erthyglau'r Cyfansoddiad**

##### **Erthygl 6**

##### **Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

6.3.2.7.7: Ychwanegu - Galwadau gan Gyngorydd i Weithredu

##### **Erthygl 8**

Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd – diwygio'r cylch gorchwyl

##### **Erthygl 9.1 – Pwyllgor Moeseg a Safonau –Cylch Gorchwyl**

Nodi y dylai'r Is-gadeirydd fod yn aelod lleyg.

##### **Erthygl 9.2 Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – diwygio'r Cylch Gorchwyl**

Nodi y dylai'r Is-gadeirydd fod yn aelod lleyg.

### **Erthygl newydd - 9.3 Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**

- Cylch Gorchwyl
- Is-gadeiryddion – newid i'r drefn o ran pleidleisio
- Cworwm – rhaid i 3 o'r 10 aelod fod yn bresennol

### **Cyd-bwyllgor y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**

Ychwanegu Erthygl 16

### **2) Rhan 3 – Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau'r Cyngor**

Mân newidiadau yn y fersiwn Saesneg e.e. defnyddio'r geiriau 'Chair' a 'Vice Chair' yn lle 'Chairman' a 'Vice-Chairman' wrth gyfeirio at y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau.

### **Rhan 3.2 (Tabl 2) – Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau'r Cyngor**

#### **Ychwanegu paragraff newydd – Paragraff 26:**

Swyddogaethau o ran Adran 108 – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

- a) Adran 91 (a) adroddiad hunanasesu
- b) Adran 91(8) ymateb i'r argymhellion ynglŷn ag adroddiad

b)S91(8) - ymateb i adroddiad ar asesiad perfformiad gan banel;

c)S92(1) - penodi panel asesiad perfformiad;

d)S93(1) - ymateb i argymhellion ynglŷn ag ymateb i adroddiad ar asesiad gan banel

e)S93(5) - ymateb i argymhellion ynglŷn ag ymateb i adroddiad gan banel;

f)S96(1) - adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru: ymateb i argymhellion gan Archwilydd Cyffredinol Cymru,

g)S96(5) - ymateb i argymhellion ynglŷn ag ymateb i Archwilydd Cyffredinol Cymru,

h) S102 - cais i Weinidogion Cymru am gefnogaeth a chymorth

### **Rhan 3.3 Tabl 3 -**

Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd – cyfeiriad at y cynllun peilot o bell  
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - cyfeiriad at y cynllun peilot o bell  
Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau – tabl newydd

### **Cynllun Dirprwyo i'r Swyddogion**

**Rhan 3.5 Dogfen G** – Swyddog Arweiniol Corfforaethol -Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Ychwanegu Cynhyrchion Plastig Untro at y tabl o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.

**Dogfen K** – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Dysgu Gydol Oes - swyddogaethau wedi'u hadolygu

**Dogfen J** – Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal - Ymyrraeth wedi'i Thargedu

- Newidiadau o ran Llesiant Gydol Oes

### **3) Rhan 4 Rheolau Gweithdrefnau**

#### **Rheolau Gweithdrefnau Contractau**

**Dogfen G** Derbyn Tendrau / y Fframwaith- diweddarau paragraff 18.2

#### **4) RHAN 5-** Codau a Phrotocolau

**Dogfen O** Diweddarau'r protocol o ran E-ddeisebau

**Dogfen P** Diweddarau rolau a chyfrifoldebau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

**Dogfen R**: Protocol ar gyfer mynychu cyfarfodydd yr Awdurdod Lleol a darllediadau electronig

### **5) Rhan 6 – Strwythur Rheoli -**

**Wedi'i ddiwygio**

### **6) Rhan 7-** Adran 4

## **Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru - Y sawl fydd yn cynrychioli'r Cyngor ar yr Is-bwyllgorau**

### **Cyd-bwyllgor y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol;**

Ychwanegu tabl newydd

### **CYNNIG**

Cynigir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad fel y cânt eu nodi yn Atodiadau 1-10

**Llesiant  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol:**

#### **A gwblhawyd Asesiad Effaith**

**Integredig? Naddo**

**Os naddo, nodwch pam**

***Crynodeb: Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â newid mewn polisi na strategaeth.***

**Hirdymor:**

**Cydweithio:**

**Cynnwys:**

**Atal:**

**Integreiddio:**

**Argymhellion:**

Argymhellir bod y Cyngor yn gwneud y canlynol:

1. Cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad (**Atodiadau 1 – 10**); a

2. Awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiweddarau Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau uchod.

**Rhesymau dros yr argymhellion:**

- Er mwyn cadw at y ddeddfwriaeth
- Er mwyn sicrhau bod y Cyfansoddiad yn addas i'r diben

**Trosolwg a Chraffu:** Ddim yn berthnasol  
**Fframwaith Polisi:** Y Cyfansoddiad

**Blaenoriaethau Corfforaethol:** Ddim yn berthnasol

**Goblygiadau o ran Cyllid a Chaffael:** Dim  
**Goblygiadau Cyfreithiol:** Os na chyflwynir y newidiadau hyn, ni fyddwn yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol na'r canllawiau statudol.

**Goblygiadau o ran staffio:** Dim

**Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau :** Dim

**Risgiau:** Heb y newidiadau hyn, ni fydd y Cyfansoddiad yn cael ei ddiweddarau ac ni fydd yn addas i'r diben.

**Pwerau Statudol:** Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: <https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2021/1/contents/welsh>  
Deddf Etholiadau 2022: <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2022/37/contents>

**Papurau Cefndir:** Adroddiad i'r Cyngor – 13 Gorffennaf 2023 a Chofnodion y Cyfarfod: [Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 13.7.23 \(ceredigion.gov.uk\)](https://www.ceredigion.gov.uk/cy/cefnodion-cyfarfod-y-cyngor-13-7-23)

**Atodiadau:** Atodiadau 1-10

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu (a'r Swyddog Monitro)

**Swyddog Adrodd:** Elin Prysor

**Dyddiad:** 14.12.2023

